

Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

5. CADWYNI A GWEOEDD BWYD

CYFLWYNIAD

Mewn ysgolion, rhan bwysig o waith y cwricwlwm gwyddoniaeth yw'r cysyniad o gadwyni bwyd ac, ar gam uwch, gweoedd bwyd Mae'r gweithgaredd hwn yn llawer o hwyl ac yn addysgu plant sut y mae anifeiliaid yn rhyngweithio gyda'u hamgylchedd a'i gilydd, a sut y gall unrhyw newidiadau effeithio ar bob un ohonynt. Mae arnoch angen casgliad o anifeiliaid ffug sy'n cynrychioli bywyd gwyllt brodorol - nid oes rhaid iddynt edrych yn realistig. Os ydych yn gweithio gyda dosbarth mewn ysgol, mae detholiad o 30 tegan yn ddelfrydol ond mae niferoedd llai yn iawn ar gyfer gwaith grŵp. Mae hyn yn cynnwys nadroedd, eitemau y maen nhw'n eu hysglyfaethu ac ysglyfaethwyr.

DEFNYDDIAU:

- Rhwng 10 a 30 o deganau a phlanhigion ffug i gynrychioli ein bywyd gwyllt brodorol yma ym Mhrydain e.e. blodau, pryfed, mamaliaid bychain, mamaliaid mwy, adar, ymlusgiaid, amffibiaid
- Saethau wedi eu hargraffu a'u lamineiddio i gynrychioli 'pwy sy'n bwyta pwy' a llif egni troffig trwy'r gadwyn fwyd neu'r we (templod yn yr adran 'adnoddau')

GWNEWCH!

1

Argraffwch, llungopiwch neu ddarluniwch tua 20-30 saeth fawr ar bapur neu gerdyn. Yn ddelfrydol, lamineiddwch nhw fel eu bod yn para.



2


Casglwch eich teganau ynghyd lle y byddwch yn gweithio. Mae cae chwarae mewn ysgol neu ardal awyr agored mewn parc neu warchodfa natur yn gweithio'n dda.



GWNEWCH!

3

Rhowch dasg i rai o'r plant hŷn neu'r oedolion i osod yr anifeiliaid allan o amgylch y safle. Gofynnwch iddynt eu gosod yn y mannau y byddech fel arfer yn disgwyl dod o hyd iddynt e.e. adar mewn coed/llwyni, nadroedd a mamaliaid bach ar lefel y tir ar ymylon y llystyfiant).



4

Gofynnwch i'r plant (a fydd yn gyffro i gyd erbyn hyn) i fynd i chwilio am anifail - UN YR UN neu un ar gyfer eu grŵp. Gofynnwch iddynt gofio ble y daethant o hyd iddo e.e. ar ymyl clawdd, mewn coeden.



5

Gofynnwch i'r plant ym mha le y daethant o hyd i'r anifeiliaid, ac yna trafodwch sut y maent yn credu y byddai'r anifeiliaid yn byw yn yr amgylchedd hwn. Yna, gofynnwch i'r plant feddwl beth fyddai eu hanifail yn ei fwyta, beth fyddai'n bwyta'r anifail, a dod o hyd i blant eraill gyda'u hysglyfaeth neu ysglyfaethwyr. Mae planhigion yn bwynt trafod da hefyd - cyflwynwch ffotosynthesis, troi heulwen yn siwgr planhigion



6

Cyfle i gael y plant i greu cadwyni bwyd syml neu, i blant hŷn, ychwanegu canghennau er mwyn creu gweoedd bwyd i weld sut y mae anifeiliaid a phlanhigion yn rhyngweithio yn yr amgylchedd naturiol.

Yna, ceisiwch fodelu senarios gwahanol - beth petai llawer o ffesantod yn cael eu rhyddhau, neu'r clawdd yn cael ei dorri i lawr neu'r pryfed yn marw? Beth sy'n digwydd i'r nadroedd? A pha effaith y mae hyn yn ei chael ar y we? Trafodwch!

